Cylchlythyr IWA Ebrill 2005

Digwyddiadau

Mae deufis prysur wedi eu trefnu ar gyfer aelodau'r IWA, gyda saith digwyddiad rhwng nawr a diwedd Mai ym mhob rhan o Gymru. Y cyntaf o'r rhain, ar Ebrill y 6ed, fydd cynhadledd **Tai yng Nhefn Gwlad Cymru** yn Hwlffordd. Yr oedd y pwnc dadleuol hwn yn destun adroddiad manwl gan yr IWA ddwy flynedd yn ol pryd y cynhaliwyd cynhadledd ar y pwnc. Ers hynny mae'r broblem o dai fforddiadwy wedi dwysau, gan effeithio cymunedau led led Cymru. Gobeithiwn y bydd y gynhadledd hon yn bwrw goleuni ar y mater ac yn fodd o ddatblygu dulliau positif i'w gweithredu.

Gyda'r etholiad gwta bum neu chwech wythnos i ffwrdd gobeithiwn gychwyn deialog rhwng etholwyr a gwleidyddion drwy gynnal sesiwn Question Time yng Nghasnewydd. Bydd cynrychiolaeth o'r bedair plaid yn y digwyddiad rhad ac am ddim a gynhelir ar gampws Allt yr Yn, Prifysgol Cymru, Casnweydd ar Ebrill y 14eg.

Y diwrnod canlynol, Ebrill y 15ed, yng Nghaerdydd, byddwn yn croesawu Syr Simon Jenkins, un o newyddiadurwyr mwyaf blaenllaw y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Yn gyn-olygydd y *Times*, mae hefyd yn awdur adnabyddus; ymhlith ei lyfrau mae'r hynod boblogaidd *England's Thousand Best Churches*. Mae'n fab i Gymro, yn gyfarwydd a Chymru, ac yn debygol o gynnig cipolwg diddorol ar faterion y dydd.

Yn hwyrach ym mis Ebrill bydd Tim Bennett, y ffarmwr o Orllewin Cymru sy'n bennaeth yr NFU, yn siarad ar fater yr **UE a Chefn Gwlad Cymru**. Cinio cangen Gorllewin Cymru yr IWA fydd hwn a gynhelir yng Nghlunderwen ddydd Iau, Ebrill yr 21ain.

Ymhlith digwyddiadau mis Mai bydd cinio yng Nghaerdydd gyda Andrew Gowers, golygydd y *Financial Times*, ddydd Mawrth, Mai y 10ed, sgwrs ar Fai 11eg rhwng y cyfansoddwr Karl Jenkins a'r hanesydd Peter Stead, a chynhadledd ar **Adfywio Economi Cefn Gwlad Gwent** ddydd Iau Mai 19eg.

Os hoffech fynychu unrhyw un o'r digwyddiadau hyn ceir manylion pellach ar ein gwefan, www.iwa.org.uk neu ffoniwch ein swyddfa ar 02920 666606.

Syniadau am ddigwyddiadau

Gobeithiwn y bydd rhai o'r digwyddiadau uchod yn ennyn eich diddordeb ac yn ddigon agos i chi allu eu mynychu. Os nad ydynt yna rydym yn croesawu syniadau ar gyfer digwyddiadau y tybiech chi fyddai o ddiddordeb i aelodau yn eich hardal. Yn well byth, os y teimlch nad yw eich hardal yn cael ei chynrychioli'n ddigonol tybed a fyddwch yn fodlon helpu i drefnu digwyddiadau? Os ydych rhowch ganiad.

Agenda

Fel arfer ceisiwn gyhoeddi Agenda erbyn y Pasg. Ond a hithau'n Basg cynnar ac oherwydd pwysau gwaith arall, megis prosiectau ymchwil ar dai cymdeithasol,

addysg bore oes, a chlystyrau busnes, fe aeth hi'n ben set arnom. Na phoenwch! Fe gyhoeddir y rhifyn nesaf, rhifyn Gwanwyn 2005, ym mis Ebrill.

Hefyd a wnelo ag Agenda, fe atgoffir aelodau corfforaethol yn arbennig ei fod yn gylchgrawn sy'n cynnig cyfle gwych i ddod a nwyddau neu wasanaethau at sylw grwp blaenllaw o Gymry. Ychydig o hysbysebion oedd yn y rhifyn diweddaraf a gobeithiwn ehangu ar hyn yn y dyfodol. Os hoffech i'ch sefydliad ymgyrraedd at ein 1,500 o aelodau unigol a chorfforaethol rhowch alwad ac fe gynigiwn raddfeydd cystadleuol.

Aelod o Fri

Mae'r teyrngedau i'r cyn Brif Weinidog, yr Arglwydd Callaghan o Gaerdydd, yn gymwys wedi canolbwyntio ar ei wasanaeth gwleidyddol a'r ffaith iddo ddal pedair swydd fawr gwleidyddiaeth Prydain: Ysgrifenydd Tramor, Ysgrifenydd Gwladol, Canghellor y Trysorlys yn ogystal a'r Brif Weinidogaeth. Yr hyn nad yw mor wybyddys efallai yw sut y parhaodd yn ei ymddeoliad i gymeryd diddordeb yng Nghymru. Fel aelod seneddol a gynrychiolodd etholaethau yng Nghaerdydd am dros ddeugain mlynedd yr oedd hefyd yn aelod o'r IWA ers blynyddoedd.

Categori Newydd o Aelodaeth

Rydym wedi bod yn ystyried creu categori newydd o aelodaeth ag iddo ystod ehangach o nodweddion. Bydd yn atyniadol i unigolion sydd am dreiddio'n ddyfnach i'r datblygiadau gwleidyddol diweddaraf na sydd ar gael trwy'r cyhoeddiadau a'r digwyddiadau presennol. Am ffi o tua £250 caiff aelodau y cyfle efallai i fynychu dau ginio arbennig lle bydd siaradwr(aig) yn annerch ar y datblygiadau diweddaraf yn ei faes/maes, yn ogystal a derbyn holl gyhoeddiadau'r IWA yn rhad ac am ddim. (Ar hyn o bryd mae aelodau yn derbyn Agenda, Papurau Gregynog a darlithoedd yr Eisteddfod ac yn cael cynnig prynu cyhoeddiadau eraill am hanner pris.)

Hoffem wybod beth fyddai'r ymateb i'r fath gynnig a chael ein harwain ar ba fanteision fyddai fwyaf atyniadol. Os byddai diddordeb gennych i symud i'r categori arbennig ond di-enw arfaethedig a fyddech cystal a rhoi gwybod i John Osmond neu Rhys David yn swyddfeydd yr IWA gan nodi eich safbwyntiau.

Gyda'n dymuniadau gorau

Ebrill 1af 2005